Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Amddiffyn rhag llifogydd

Medi 2011

## Cyflwyniad

Mae tri math o lifogydd: llifogydd arfordirol neu lanw, llifogydd afon a llifogydd dŵr ar yr wyneb a achoswyd gan orlaw.[1] Mae dioddef difrod o ganlyniad i lifogydd yn anarferol. Mae angen sicrhau diogelwch pobl, eiddo preifat a chyfleusterau cyhoeddus, gan gynnwys ysbytai, ysgolion, gwasanaethau brys a seilwaith trafnidiaeth, drwy ddefnyddio amddiffynfeydd rhag llifogydd.[2]

Mae bron i 2 filiwn o adeiladau wedi'u lleoli ar orlifdiroedd ac mewn perygl o lifogydd arfordirol neu lifogydd afon, ac mae 80,000 o adeiladau mewn perygl o lifogydd 'mewn-drefol', lle mae dŵr glaw yn gorlethu'r system ddraenio.[3] Yng Nghymru a Lloegr, mae dros 4 miliwn o bobl yn byw mewn ardaloedd sydd mewn perygl, a gwerth yr eiddo sydd mewn perygl yw tua £200 biliwn.[4] Yng Nghymru, mae tua 357,000 o adeiladau, sef un allan o bob chwe adeilad, mewn perygl o lifogydd.[5] O'r adeiladau hyn, mae 220,000 mewn perygl o lifogydd arfordirol neu lifogydd afon, ac mae 137,000 mewn perygl o lifogydd dŵr ar yr wyneb.[6]

Mae amddiffyn rhag llifogydd yn fater datganoledig. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddatblygu polisi rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd yng Nghymru.[7]

## Beth yw'r gost o ddarparu amddiffynfeydd rhag llifogydd?

Yng Nghymru, amcangyfrifir mai cost flynyddol y difrod a achosir gan lifogydd yw dros £200 miliwn. Disgwylir i gost y difrod hwn gynyddu o £70 miliwn yn 2004 i dros £1,200 miliwn yn 2080.[8] Ym mis Mai a Mehefin 2007, cafwyd glaw eithafol a arweiniodd at lifogydd ar raddfa eang yng Nghymru a Lloegr, gan achosi difrod gwerth £3.2 biliwn.[9]

---

[1] Llywodraeth Cymru, *Yr amgylchedd – diogelu ac ansawdd,* ***Dŵr a llifogydd*** *(gwefan)* [fel ar 17 Mehefin 2011]
[2] King, D., 2004. Foresight Future Flooding. Adroddiad gan y prosiect Atal Llifogydd ac Amddiffyn yr Arfordir, rhaglen Foresight y Llywodraeth. Y Swyddfa dros Wyddoniaeth a Thechnoleg.
[3] ibid.
[4] ibid.
[5] Llywodraeth Cymru, *Yr amgylchedd – diogelu ac ansawdd,* ***Llifogydd*** *(gwefan)* [fel ar 17 Mehefin 2011]
[6] ibid.
[7] ibid.
[8] Y Cofnod p65, 9 Rhagfyr 2009
[9] **Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, cyhoeddiad materion allweddol, 2010**

Cyfanswm gwariant blynyddol y DU ar lifogydd yw £2.2 biliwn. Mae £800 miliwn yn cael ei wario ar fesurau i atal llifogydd fel amddiffynfeydd morol, a £1,400 miliwn yn cael ei wario ar atgyweirio'r difrod.[10] Mae Llywodraeth Cymru'n cyllido prosiectau llifogydd a phrosiectau arfordirol yng Nghymru.[11] Yn 2009-10, dyrannwyd £22 miliwn ar gyfer ymdrechion i leihau'r perygl o lifogydd ac o erydu arfordirol.[12] Ym mis Mehefin 2011, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi swm o £26 miliwn i Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer darparu mesurau i amddiffyn rhag llifogydd ac i liniaru'r risg o lifogydd yn y flwyddyn ariannol bresennol.[13]

Ers 1997, mae'r arian a warir gan Lywodraeth y DU ar fesurau i amddiffyn rhag llifogydd wedi mwy na dyblu. Serch hynny, mae angen swm cynyddol o arian i gynnal y lefelau presennol er mwyn amddiffyn rhag llifogydd.[14] [15] I gynnal y lefelau hyn tan 2035, mae llyfrgell Tŷ'r Cyffredin yn amcangyfrif y byddai gwariant ar adeiladu a chynnal a chadw asedau yng Nghymru a Lloegr yn gorfod cynyddu i dros £1 biliwn y flwyddyn, sef cynnydd o 80 y cant. Fodd bynnag, byddai'r buddsoddiad hwn yn arwain at arbedion o tua £180 biliwn dros y 100 mlynedd nesaf. [16]

Ym mis Chwefror 2011, dywedodd Jane Davidson, cyn-Weinidog yr amgylchedd:[17]

> *… y bydd risg llifogydd ac erydu'r arfordir yn cynyddu'n sylweddol wrth i'r hinsawdd newid ac wrth i lefel y môr godi, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn arwain ar newid mawr yn y ffordd rydym yn rheoli risg llifogydd ac erydu. Bydd yn rhaid i ni addasu yn wyneb risg cynyddol llifogydd ac erydu drwy ddefnyddio ystod eang o fesurau fel gwella'r system rybuddio a chydnerthedd cymunedol, ynghyd â'r ffordd rydym yn cynllunio ar gyfer newid arfordirol.*

## Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

Daeth *Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010* i rym ar 8 Ebrill 2010. Nod y ddeddf hon yw newid sut y mae dŵr yn cael ei reoli ac addasu rhai o'r prosesau hyn er mwyn ymdopi â'r pwysau cynyddol sydd ar yr adnoddau hyn.[18] Rhagwelir y bydd newid yn yr hinsawdd yn cynyddu'r tebygolrwydd o dywydd eithafol, fel llifogydd a sychder, ac o erydu ein harfordir. I geisio gwrthsefyll y datblygiadau hyn, bydd *Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010* yn:[19]

- darparu gwell mesurau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, a'r rheini'n ddulliau mwy cynaliadwy i

[10] King, D., 2004. Foresight Future Flooding. Adroddiad gan y prosiect Atal Llifogydd ac Amddiffyn yr Arfordir, rhaglen Foresight y Llywodraeth. Y Swyddfa dros Wyddoniaeth a Thechnoleg.
[11] Llywodraeth Cymru, *Yr amgylchedd – diogelu ac ansawdd*, ***Llifogydd*** *(gwefan)* [fel ar 17 Mehefin 2011]
[12] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Canolfan Newyddion y Canolbarth, dyddiedig 18 Mawrth 2009,* ***£17 miliwn o Gyllid Ewropeaidd wedi ei roi i amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn arfordirol yng Nghymru*** *(gwefan)* [fel ar 26 Tachwedd 2009]
[13] Y Cofnod p6, 29 Mehefin 2011
[14] The UK Low Carbon Transition Plan
[15] **Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, cyhoeddiad materion allweddol, 2010**
[16] ibid.
[17] Llywodraeth Cymru, *Newyddion, yr amgylchedd a chefn gwlad,* ***Gorllewin Rhyl*** *(gwefan)* [fel ar 20 Mehefin 2011]
[18] Llywodraeth Cymru, *Yr amgylchedd – diogelu ac ansawdd, Llifogydd,* ***Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010*** *(gwefan)* [fel ar 20 Mehefin 2011]
[19] ibid.

bobl, cartrefi a busnesau;

- helpu i ddiogelu grwpiau cymunedol rhag codiadau anfforddiadwy mewn costau draenio; ac yn
- diogelu cyflenwadau dŵr.

Mae *Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010* yn ei gwneud yn ofynnol ar Asiantaeth yr Amgylchedd i lunio *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol* i Gymru a Lloegr, a bydd yn rhaid i sefydliadau penodol gydymffurfio â'r strategaeth hon.[20] O dan y strategaeth gyffredinol hon, bydd gofyn i awdurdodau lleol lunio strategaethau lleol ar gyfer rheoli perygl llifogydd.[21] Cyhoeddwyd y *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol* i Loegr eleni. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n paratoi'r *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol* i Gymru ar hyn o bryd.[22]

## Strategaeth ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol i Gymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru a fydd yn amlinellu ei pholisïau ac yn pennu'r fframwaith cyflenwi perthnasol.[23] Cynhaliwyd ymgynghoriad yn ystod haf 2010, a daeth yr ymgynghoriad i ben ar 8 Hydref 2010.[24] Mae *Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010* yn nodi bod yn rhaid i'r strategaeth gynnwys gwybodaeth am:[25]

- yr awdurdodau rheoli risg yng Nghymru;
- eu swyddogaethau o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol;
- yr amcanion ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol;
- y mesurau y bwriedir eu cymryd er mwyn cyflawni'r amcanion hynny;
- sut a phryd y bydd y mesurau'n cael eu rhoi ar waith;
- y gost a'r budd a ddaw ohonynt, a sut y bwriedir talu amdanynt;
- asesu'r perygl llifogydd ac erydu arfordirol ar gyfer y strategaeth;
- sut a phryd y bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu;
- effaith bresennol ac effaith ragweledig y newid yn yr hinsawdd ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol; a
- sut bydd y strategaeth yn helpu i gyflawni amcanion amgylcheddol ehangach.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynnal *asesiad amgylcheddol strategol* ac *asesiad rheoliadau cynefinoedd* mewn perthynas â'r cynigion sydd yn y ddogfen ymgynghori.[26]

---

[20] ***Mesur Seneddol Rheoli Llifogydd a Dŵr 2009-10*** *(gwefan)* [fel ar 27 Mehefin 2011]
[21] ibid.
[22] Asiantaeth yr Amgylchedd, ***Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol*** *(gwefan)* [fel ar 27 Mehefin 2011]
[23] Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriadau, yr amgylchedd a chefn gwlad,* ***Strategaeth llifogydd*** *(gwefan)* [fel ar 20 Mehefin 2011]
[24] Llywodraeth Cymru, *Yr amgylchedd – diogelu ac ansawdd, Llifogydd,* ***Strategaeth*** *(gwefan)* [fel ar 20 Mehefin 2011]
[25] ibid.
[26] ibid.

Disgwylir i'r strategaeth genedlaethol gael ei chyhoeddi yn ystod haf 2011, a bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wneir. Bydd angen i awdurdodau lleol lunio strategaethau sydd wedi'u teilwra'n lleol er mwyn gweithredu'r amcanion cenedlaethol.[27] Bydd y strategaeth genedlaethol yn amlinellu'r peryglon sy'n gysylltiedig â llifogydd ac yn cynnwys gwybodaeth am fuddsoddi ac am yr awdurdodau rheoli risg a'u cyfrifoldebau.[28]

## Cyfarwyddeb yr UE ar Lifogydd

Daeth *Cyfarwyddeb 2007/60/EC*, sy'n ymwneud ag asesu a rheoli perygl llifogydd, i rym yn yr UE ym mis Tachwedd 2007. Fel rhan o'r gyfarwyddeb, sy'n gymwys ar gyfer dyfroedd mewndirol ac arfordirol, mae'n ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau baratoi cyfres o ddogfennau, gan gynnwys:[29]

- asesiadau rhagarweiniol o'r peryglon llifogydd erbyn 22 Rhagfyr 2011;
- mapiau peryglon llifogydd a mapiau risgiau llifogydd erbyn 22 Rhagfyr 2013; a
- chynlluniau rheoli perygl llifogydd erbyn 22 Rhagfyr 2015.

Gan fod dwy allan o'r tair ardal basn afon yng Nghymru yn estyn ar draws y ffin i Loegr (sef ardal basn afon Dyfrdwy ac ardal basn afon Hafren), i gydymffurfio â'r gyfarwyddeb, rhaid datblygu a chydlynu cynlluniau rheoli perygl llifogydd Cymru gyda rhai Lloegr.[30] Mae'r *Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr* (200/60/EC) wedi bod yn gyfraith yn y DU ers 2003; mae'r gyfarwyddeb hon yn hyrwyddo'r broses o ddefnyddio cynlluniau basn afon i reoli dŵr, ac fe'i defnyddir fel sail i unrhyw newidiadau a wneir i amgylchedd y dŵr yng Nghymru.[31] [32]

## Asiantaeth yr Amgylchedd

Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r prif awdurdod gweithredu yng Nghymru a Lloegr yn y maes rheoli perygl llifogydd. Mae'r asiantaeth yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a chan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Sefydlwyd yr Asiantaeth gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Yn sgil hynny, trosglwyddwyd cyfrifoldebau'r cyn-Awdurdod Afonydd Cenedlaethol dros reoli perygl llifogydd i'r Asiantaeth.

Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am godi ymwybyddiaeth am berygl llifogydd, am ddatgan rhagolygon a chyhoeddi rhybuddion cyn i ddigwyddiadau llifogydd ddod i'r amlwg, am adeiladu amddiffynfeydd llifogydd a'u cynnal a'u cadw, ac am reoli grantiau

[27] Llywodraeth Cymru, *Yr amgylchedd – diogelu ac ansawdd, Llifogydd,* **Strategaeth** *(gwefan)* [fel ar 20 Mehefin 2011].
[28] ibid.
[29] Llywodraeth Cymru, *Yr amgylchedd – diogelu ac ansawdd, Llifogydd,* **Cyfarwyddeb yr UE ar Lifogydd** *(gwefan)* [fel ar 17 Mehefin 2011]
[30] ibid.
[31] Y Comisiwn Ewropeaidd, *Yr amgylchedd,* ***y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr*** *(gwefan)* [fel ar 20 Mehefin 2011]
[32] Llywodraeth Cymru, *Yr amgylchedd – diogelu ac ansawdd, Y fframwaith dŵr,* ***Y Gyfarwyddeb*** *(gwefan)* [fel ar 17 Mehefin 2011]

sy’n gysylltiedig â phrosiectau cyfalaf. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru o fewn Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae’n gyfrifol am reoli’r amgylchedd yng Nghymru ac yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru.[33]

## Polisïau llifogydd a chynllunio

Mae *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2004)* yn gosod canllawiau technegol sy'n ategu'r polisi a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru mewn perthynas â datblygu a llifogydd.[34] Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu fframwaith rhagofalus ar gyfer llywio penderfyniadau cynllunio ac yn ceisio rhoi cyngor i fod yn ofalus o safbwynt datblygiadau newydd mewn ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. Yn hytrach, mae’n ceisio cyfeirio datblygiadau newydd oddi wrth ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd a thuag at ardaloedd lle mae risg isel o lifogydd.[35]

Mae TAN 15 yn cynnwys mapiau cyngor datblygu sy’n diffinio’r tri pharth cyngor datblygu fel a ganlyn:

- Parth A: Ystyrir mai ychydig neu ddim risg sydd o lifogydd afonol neu lawol/arfordirol.
- Parth B: Ardaloedd y gwyddir eu bod wedi gorlifo yn y gorffennol, yn ôl tystiolaeth dyddodion gwaddodol.
- Parth C: Ar sail amlinelliad Asiantaeth yr Amgylchedd o lifogydd eithaf, sy’n hafal neu’n uwch na 0.1 y cant (afonol, lawol neu arfordirol) (hynny yw, bod y perygl o lifogydd yn ystod blwyddyn benodol yn uwch na un mewn 1,000).

Mae Parth C wedi ei isrannu i C1 a C2.

- Mae C1 yn cyfeirio at ardaloedd o’r gorlifdir sydd wedi’u datblygu ac sy’n cael eu gwasanaethu gan isadeiledd sylweddol, gan gynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd.
- Mae C2 yn cyfeirio at ardaloedd o’r gorlifdir sydd heb isadeiledd sylweddol i’w hamddifyn rhag llifogydd.

Nid oes angen asesiadau pellach o berygl llifogydd ar gynigion datblygu ym mharth A. Dylid ystyried perygl llifogydd ymhellach mewn perthynas â chynigion datblygu ym mharth B.

Mae cynnal asesiad o’r goblygiadau a allai ddeillio o lifogydd yn ofynnol mewn perthynas â chynigion datblygu ym mharth C. Gellir rhoi datblygiad ar waith ym mharth C1, yn amodol ar asesiad boddhaol. Ym mharth C2, dim ond datblygiadau sy’n llai agored i niwed y dylid eu hystyried. [36]

Yn ei ymchwiliad i lifogydd yng Nghymru ym mis Chwefror 2010, argymhellodd Pwyllgor Cynaliadwyedd y Trydydd Cynulliad y dylid ail-ddrafftio TAN 15 mewn modd a fyddai’n

---

[33] Asiantaeth yr Amgylchedd, *y Rhanbarthau, Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (gwefan)* [fel ar 27 Mehefin 2011]
[34] Llywodraeth Cymru, *Cynllunio, Polisi, Nodiadau Cyngor Technegol, TAN 15 (gwefan)* [fel ar 20 Mehefin 2011]
[35] Polisi Cynllunio Cymru, *Nodyn Cyngor Technegol 15: DATBLYGU A PHERYGL O LIFOGYDD*, Gorffennaf 2004.
[36] Polisi Cynllunio Cymru, *Nodyn Cyngor Technegol 15: DATBLYGU A PHERYGL O LIFOGYDD*, Gorffennaf 2004.

datgan yn glir na ddylid adeiladu mewn ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd, heblaw o dan amgylchiadau eithriadol.[37]

Gwrthodwyd yr argymhelliad hwn gan Jane Davidson, cyn-Weinidog yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, ar sail y ffaith bod TAN 15 eisoes yn nodi lle dylid a lle na ddylid datblygu mewn digon o fanylder. Dywedodd y Gweinidog hefyd bod y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o berygl llifogydd wedi gwella'n sylweddol ers i TAN 15 gael ei gyflwyno, gan awgrymu bod y newidiadau a gynigwyd yn ddiangen.[38]

## Arian o'r rhaglen gydgyfeirio ar gyfer perygl llifogydd

Arian cydgyfeirio yw'r lefel uchaf o gymorth ariannol strwythurol sy'n cael ei ddarparu gan yr Undeb Ewropeaidd.[39] Mae un ardal o Gymru, sef ardal sy'n cwmpasu 15 awdurdod lleol yn rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, wedi derbyn arian cydgyfeirio er mwyn mynd i'r afael â llifogydd.[40] Mae'r cyllid yn cael ei ddarparu gan ddwy o gronfeydd strwythurol Ewrop: Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Ym mis Mawrth 2009, cyhoeddodd cyn-Weinidog yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai y byddai swm o £17 miliwn o gyllid cydgyfeirio yn cael ei fuddsoddi mewn mesurau i ddiogelu tai a busnesau, yn ogystal â swm o £22 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Nod y rhaglen hon yw lleihau'r perygl o lifogydd i dros 2,000 o bobl dros gyfnod o chwe blynedd, rhwng 2007 a 2013.[41] [42]

Ar hyn o bryd, mae 15 o brosiectau'n bodoli yn yr ardal cydgyfeirio sy'n mynd i'r afael â'r perygl o lifogydd mewn tri maes gwaith bras: adeiladu amddiffynfeydd, codi ymwybyddiaeth a gwella'r gwaith cyd-nerthu mewn perthynas â llifogydd.[43]

---

[37] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cynaliadwyedd, ***Ymchwiliad i lifogydd yng Nghymru***, Chwefror 2010
[38] Davidson, J., 2010. **Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar ei 'Ymchwiliad i Lifogydd yng Nghymru'**.
[39] Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, *Rhaglenni*, ***Rhaglenni Cydgyfeirio*** *(gwefan)* [fel ar 20 Mehefin 2011]
[40] Llywodraeth Cymru, *Yr amgylchedd – diogelu ac ansawdd, Llifogydd,* ***Cydgyfeirio*** *(gwefan)* [fel ar 17 Mehefin 2011]
[41] ibid.
[42] Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, *Rhaglenni*, ***Rhaglenni Cydgyfeirio*** *(gwefan)* [fel ar 20 Mehefin 2011]
[43] Llywodraeth Cymru, *Yr amgylchedd – diogelu ac ansawdd, Llifogydd,* ***Cydgyfeirio*** *(gwefan)* [fel ar 17 Mehefin 2011]

## Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth am wahanol agweddau ar amddiffyn rhag llifogydd, cysylltwch â **Katherine Daniels** (Katherine.Daniels@Cymru.gov.uk) neu **Nia Seaton** (Nia.Seaton@Cymru.gov.uk) yn y Gwasanaeth Ymchwil.

I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau isod, cliciwch ddwywaith ar y lincs.

- **Dŵr a llifogydd**, gwefan Llywodraeth Cymru,
- **Rheoli'r Perygl o Lifogydd a'r Perygl i Arfordir Cymru,** gwefan Llywodraeth Cymru,
- **Llifogydd,** gwefan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol,** gwefan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- **Dŵr,** gwefan y Comisiwn Ewropeaidd
- **Rhaglenni Cydgyfeirio**, gwefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
- **Erydu arfordirol a chynnydd yn lefel y môr,** hysbysiad hwylus

Gallwch weld rhestr lawn o'n hysbysiadau hwylus **yma**.

**Rhif Ymholiad: 11/1217 Katherine Anne Daniels**

**Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd.**

**Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon drwy'r post i'r Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu dros e-bost i Research.Service@wales.gov.uk**